

Cyd-destyn ysgol Y Ffridd 2016

Mae niferoedd y disgyblion wedi cynyddu yn sylweddol eleni i 96 yn cynnwys disgyblion llawn a rhan amser. Bydd yr ysgol yn parhau i gyflogi athrawes dosbarth Meithrin a derbyn llawn amser gan fod niferoedd yn parhau yn uchel sef 14 meithrin ac 11 derbyn. Bydd un athrawes llawn amser a dwy gymhorthydd meithrin / un i un. Bydd 30 disgybl ym mlwyddyn 1 a 2. Bydd un athrawes yn gyfrifol gyda dwy gymhorthydd yn cefnogi.

Bydd dosbarth o 16 disgybl blwyddyn 3 a 4. Mae un disgybl sydd yn derbyn cynhaliaeth un i un yn y dosbarth.

Bydd 24 disgybl yn nosbarth blwyddyn 5 a 6.

Yn dilyn arolygiad gan Estyn Ionawr 2016 rhoddwyd sylw eisioes i ddarganfyddiadau'r adroddiad honno fel blaenoriaeth i symud yr ysgol ymlaen.

Yr argymhellion oedd

- Gwella medrau darllen disgyblion
- Parhau i wella presenoldeb
- Darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion cyfnod allweddol 2 gymhwyso eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm
- Cynnig her gyson i ddisgyblion o allu uwch

Mae'r argymhellion uchod wedi chwarae rhan flaenllaw yng ngweithgareddau'r ysgol ac yn flaenoriaethau cynllun datblygu ysgol dros y flwyddyn i ddod.

Prif gyfeiriad yr ysgol dros y tair blynedd nesaf fydd datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd y disgyblion ar draws yr ysgol. Blaenoriaeth hefyd fydd gweithredu strategaeth rhifedd a llythrennedd.

Bwriedir parhau i ddefnyddio grant amddifadedd (GAD cyfanswm o £16,100) a gyflwynwyd gan y Cynulliad i ariannu personel addysgu ychwanegol yn yr ysgol i dargedu grwpiau a lleihau y gwahaniaeth rhwng oed darllen ac oedran cronolegol tua chwarter ein disgyblion.

Byddwn hefyd yn targedu disgyblion blwyddyn 6 sydd ar hyn o bryd yn tangyraedd gofynion lefel 4. Hyderwn o'r gefnogaeth ychwanegol i sicrhau bod y grwp targed yma yn cyflawni lefelau 4 erbyn haf 2017.

Byddwn yn targedu grwp bach o flwyddyn 3 a 4 wrth gyflwyno saesneg mewn dull sensitif gan fod canran uchel o'r dysgwyr yn ADY.

Bydd £2,400 GAD blynyddoedd cynnar hefyd yn cael ei wario ar bersonel gan fod niferoedd dysgwyr yn gymharol uchel ac angen cefnogaeth er mwyn cyfarwyddo ar ysgol mor fuan a phosib.

Bydd GGA o £4,111 ar gael at ddibenion adnoddau / personel /hyfforddiant staff.

Bydd dyraniad grant GAD yr ysgol yn cyllido datblygiad partneriaethau rhwng ysgolion teulu a rhyddhau pennaeth a staff er mwyn gweld a rhannu arferion da.

Byddwn hefyd yn hybu disgyblion i fwyta ac yfed yn iach yn yr ysgol drwy'r prosiect 'Blas am Oes'

Bydd trefniadau hunan arfarnu'r ysgol yn adnabod meysydd penodol i roi sylw iddynt o un flwyddyn i'r llall. Mae'r trefniadau hynny bellach wedi eu plethu yn dda gyda threfn rheoli perfformiad a datblygiad profesiynol y staff.